Swydd-ddisgrifiad

CYFEIRNOD Y SWYDD

Teitl y Swydd	Gweithiwr Chwarae Tymhorol y Cynllun Chwarae				
Gradd	Gradd 2	**Cyfeirnod Gwerthuso Swydd:**	1029c	**Dyddiad Gwerthuso/Adolygu**	22 Mai 2024

Gwasanaeth	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc				
Tîm Gwasanaeth	Tîm Plant Anabl				
Yn atebol i'r	Goruchwyliwr y Cynllun Chwarae				
Meysydd Cyfrifoldeb	Cliciwch yma i ychwanegu testun *(enwau'r timau).*				
Nifer y staff y mae'n gyfrifol amdanynt	Dim	**Rôl Wleidyddol Gyfyngedig** (gweler yr adran amodau arbennig)	Rhif	**Angen Gwiriad gan y GDG**	Oes
Ffurflen Gwerthuso Swydd (i'w chwblhau gan reolwr dim ond wrth greu swydd newydd neu addasu rôl bresennol)					

DIBEN Y SWYDD

Helpu i drefnu a chyflwyno'r Cynllun Chwarae o ddydd i ddydd gan sicrhau bod gweithgareddau chwarae'n cael eu hwyluso o fewn amgylchedd diogel ac ysgogol, ar gyfer plant rhwng 5 a 12 oed (17 oed i blant sydd ag anabledd).

PRIF FEYSYDD CANLYNIAD

1. Darparu gweithgareddau chwarae ysgogol ac amrywiol i bob plentyn fel sy'n briodol i'w hoedran, eu galluoedd a'u cefndiroedd diwylliannol.
2. Helpu i weithredu'r Cynllun Chwarae lle gall pob plentyn brofi ystod eang o gyfleoedd chwarae, gan sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses gynllunio drwy hyrwyddo'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a sicrhau y cyrhaeddir y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
3. Bodloni anghenion gofal unigol y plant, gan gynnwys darparu byrbrydau a diodydd, mynd i'r tŷ bach / newid a chadw safon hylendid uchel.
4. Bod yn gyfrifol am sefydlu a defnyddio offer a deunyddiau, gan sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel a glân mewn modd trefnus. Rhoi gwybod i'r goruchwyliwr am unrhyw bryderon ynghylch offer a deunyddiau.
5. Cyfathrebu'n effeithiol ac yn sensitif, ar lafar ac yn ysgrifenedig gyda'r rhieni a'r plant wrth gynnal cyfrinachedd.
6. Helpu i hyrwyddo Cyfle Cyfartal i bob plentyn a'i deulu sy'n defnyddio'r Cynllun Chwarae.
7. Sicrhau cydymffurfiaeth â holl reoliadau Iechyd a Diogelwch, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a gofynion cyfreithiol eraill sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun.
8. Cyfrannu'n llawn at sesiynau briffio tîm a sesiynau dadfriffio ar ddechrau a diwedd pob sesiwn chwarae, gan rannu gwybodaeth berthnasol am blant ar sail angen i wybod.
9. Gweinyddu Cymorth Cyntaf sylfaenol lle bo hynny'n briodol ac yn unol â hyfforddiant perthnasol.
10. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill, yn unol â gradd y swydd fel y cyfarwyddir gan y rheolwr llinell.

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn nodi prif feysydd canlyniadau'r swydd ar y dyddiad y cafodd ei lunio. Gall y fath ddyletswyddau amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb. Mae'r fath amrywiadau'n digwydd yn gyffredin ac ni allant ynddynt eu hunain gyfiawnhau ailystyried graddio'r swydd.

MANYLEB PERSON		
	HANFODOL	**DYMUNOL**
Cymwysterau	• O leiaf 5 TGAU, gradd A i G neu gymwysterau cyfatebol.	• NVQ Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae neu gymhwyster cyfatebol • Cymhwyster Cymorth Cyntaf
Gwybodaeth	• Gwybodaeth a Dealltwriaeth am Weithdrefnau Diogelu	• Gwybodaeth am y Ddeddf Plant, rheoliadau AGC a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.
Profiad	• Profiad o weithio neu wirfoddoli gyda phlant 0 – 12 oed (17 oed i blant sydd ag anabledd). • Profiad o hwyluso gweithgareddau Chwarae ac Ieuenctid.	• Profiad o weithio / gwirfoddoli â phlant anabl a/neu blant ag ymddygiad heriol.
Gallu a Sgiliau	• Y gallu i ddatrys problemau a gweithio dan bwysau fel rhan o dîm. • Dangos sgiliau cyfathrebu da - yn ysgrifenedig ac ar lafar gyda phlant, teuluoedd a phobl berthnasol eraill. • Ar gael i weithio drwy gydol y cynllun chwarae a mynychu diwrnodau hyfforddi a chyfarfodydd yn ôl y gofyn os yw'n rhesymol. • Cymhwyso hyfforddiant a ddysgwyd pan fo angen. • Yn hyblyg ac yn gallu addasu i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.	• Gallu gweithio ar eich liwt eich hun. • Â hunan-gymhelliant a brwdfrydedd. • Gallu i ddangos angerdd dros weithio gyda phlant a chynyddu cyfleoedd chwarae. • Siarad Cymraeg. • Y gallu i sefydlu perthnasau gwaith da gyda phlant / pobl ifanc wedi'u seilio ar barch a bod yn agored. • Gallu cydgysylltu a sefydlu perthnasau gwaith da gyda gweithwyr proffesiynol / rhieni / gofalwyr a'r tîm ehangach. • Trwydded yrru lawn lân gydag yswiriant dosbarth busnes a'r gallu i deithio'n helaeth ledled Casnewydd (ar gyfer safleoedd allgymorth yn unig).

YMDDYGIAD A GWERTHOEDD DISGWYLIEDIG

Annog a chefnogi pobl eraill yn rhan o dîm. Rhoi arweiniad a chyngor i bobl eraill. Meithrin perthnasau gwaith cadarnhaol.
Cyfrannu a bod yn agored i newid.

Cyfathrebu'n agored, gan fod yn ddidwyll gyda phobl i ennyn ymddiriedaeth a hyder.
Dilyn gweithdrefnau a rheolau. Rhoi adborth lle y gellir gwella'r rhain.
Myfyrio'n onest ar eich dull personol a'i effaith ar bobl eraill a datblygu eich sgiliau er mwyn gallu addasu eich dull fel y bo'n briodol.

Cyfle Cyfartal	
Cyfle Cyfartal	Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Dinas Casnewydd yn gadarnhaol.

Gofynion y Gymraeg

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon yr un mor uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn cynorthwyo staff i ddarparu hyn. Rhaid i bob swydd gael ei hasesu o ran gofynion y Gymraeg.

Gofynion y Gymraeg ar gyfer y swydd hon (gweler yr Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg am lefelau sgiliau)

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Gofynion y Gymraeg					
Sgiliau Iaith Gymraeg		Dymunol			
Sgiliau Gwrando / Siarad	0	Sgiliau Ysgrifennu	0	Sgiliau Darllen / Deall	0

Amodau Arbennig	
Datgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Fel rhan o'r swydd hon byddwch yn cael cryn dipyn o gyswllt gyda phlant, yr henoed, pobl sâl neu bobl anabl. Mae'r Awdurdod, felly, yn gofyn drwy rinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, eich bod yn datgelu unrhyw euogfarnau troseddol, gorchmynion rhwymo neu rybuddion, gan gynnwys y rheiny a ystyrir fel rhai a ddisbyddwyd. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais – caiff eich cais ei ddychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os ydych yn llwyddiannus yn eich cais, byddwch yn destun Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dylech dderbyn rhagor o wybodaeth am Ddatgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ymagwedd y Cyngor at recriwtio cyn-droseddwyr ar ôl derbyn y ffurflen gais. Os na dderbyniwch chi'r rhain, cysylltwch â'r person a enwir yn yr hysbyseb.
Rôl Wleidyddol Gyfyngedig	Ddim yn berthnasol
Arall (gan gynnwys gofynion corfforol ac amodau gwaith)	O bryd i'w gilydd, bydd amrywiadau o ran telerau ac amodau cyflogaeth yn deillio o drafodaethau a chydgytundebau o fewn yr undebau llafur cydnabyddedig. Mae natur y swydd yn golygu y gallai fod angen i ddeiliad y swydd deithio ledled safleoedd yn ddyddiol. Gallai sesiynau hyfforddi gael eu cynnal yn gynnar gyda'r nos a / neu ar benwythnosau ac fel rhan o'r swydd bydd angen i staff ymrwymo i hyfforddiant gorfodol. Bydd angen i chi fod yn hyblyg oherwydd ni ellir sicrhau y byddwch yn parhau ar y safle am hyd y cynllun. Rhaid gallu gweithio drwy gydol cyfnod y cynllun

Hyfforddiant
Ymgymryd â'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'r rôl a bod yn gyfrifol am eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus eich hun.

I gael gwybod mwy am weithio i Gyngor Dinas Casnewydd, ewch i www.newport.gov.uk/cy neu cliciwch yma